# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **29 Tachwedd 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd N.Goldup-John** |
| **Cynghorwyr**: | J.Hale, M.Harvey, J.Henton, A.Lodwig, P.A.Rees a/ac P.Rogers |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Griffiths, S.Curran a/ac S.McCluskie |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL A GYNHALIWYD AR 3 HYDREF 2022**

   Cymeradwywyd y cofnodion.

2. **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - 2023**

   Amlinellodd yr adroddiad a ddosbarthwyd y newidiadau arfaethedig i Gydnabyddiaeth Aelodau a gynhwyswyd yn Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) 2023/24.

   Nododd aelodau'r cynnydd arfaethedig i gyflogau ac nid oedd unrhyw newidiadau arfaethedig eraill i feysydd megis salwch, teithio, gofal etc.

   Roedd aelodau wedi nodi a chymeradwyo'r ymateb drafft i'r ymgynghoriad ar gyfer y cwestiynau a benderfynwyd arnynt a chadarnhawyd y byddai'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymateb i IRPW mewn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad.

Nodwyd bod hefyd cwmpas i aelodau unigol a/neu grwpiau gwleidyddol wneud cyflwyniadau i'r panel a hefyd dosbarthwyd y ddolen i'r holl aelodau.

**PENDERFYNWYD**:

1. Bydd aelodau'n nodi'r Adroddiad Blynyddol drafft a'r penderfyniadau arfaethedig ar gyfer 2023/24.

2. Cymeradwyo a chyflwyno'r ymateb i gwestiynai'r ymgynghoriad y penderfynwyd arnynt a nodwyd yn yr adroddiad.

3. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn paratoi ymateb y cyngor ar ran y Pwyllgor.

## 3. YMDRIN AG AFLONYDDU, CAM-DRIN A BRAWYCHU

Nododd yr aelodau'r diweddariad mewn perthynas â diogelwch y cynghorydd; yn benodol mewn perthynas ag aflonyddu, brawychu a cham-drin fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Nodwyd cafwyd cais gan y pwyllgor am y diweddaraf mewn perthynas â'r maes gwaith hwn.  Esboniodd swyddogion fod gan CLlLC ymrwymiad i sefydlu gweithgor i ganolbwyntio'r trafodaethau ond nid oedd unrhyw ddiweddariadau pellach ynghylch hwn ar hyn o bryd.

Cyflwynwyd arweiniad ymarferol i aelodau a oedd wedi cael ei gynhyrchu gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL): ‘A Councillor’s guide to handling harassment abuse and intimidation’ a gofynnwyd bod copi'n cael ei ddosbarthu i holl aelodau'r cyngor.

Trafododd y pwyllgor yr argymhellion ar gyfer Awdurdodau Lleol a amlinellwyd yn yr arweiniad, gan gynnwys: cael swyddogion a enwir i drafod materion o bryder, cael Côd Ymddygiad, a chael prosesau penderfynu lleol. Nododd yr aelodau'r argymhelliad yn yr arweiniad y dylai bod polisi pwrpasol gan y cyngor sy'n amlinellu'r weithdrefn a'r protocolau os bydd cynghorydd yn teimlo ei fod yn cael ei aflonyddu, ei ddychryn neu'i gam-drin a chytunwyd y dylai hyn gael ei gyflwyno yn ystod cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn y dyfodol ar gyfer cadarnhad.

Dywedwyd wrth aelodau fod gallu'r Awdurdod Lleol i helpu wrth ddatrys unrhyw broblemau megis difenwad, enllib neu athrod yn gyfyngedig.

Cytunodd y Pwyllgor y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar ran y pwyllgor yn ceisio rhagor o wybodaeth am y mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi aelodau etholedig ac yn gofyn i faterion o'r fath gael eu hystyried ar lefel genedlaethol.

Trafododd yr aelodau gyfrifoldeb yr aelodau i baratoi asesiadau risg wrth gynnal cymorthfeydd yn y gymuned. Roedd cyngor yn cynnwys rhoi gwybod i Heddlu De Cymru a thrafod â chydweithwyr Iechyd a Diogelwch.

**PENDERFYNWYD:**

a) Bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn nodi'r diweddaraf mewn perthynas ag ymdrin ag aflonyddu, cam-drin a brawychu a chynnwys yr Arweiniad i Gynghorwyr ar Ymdrin ag Aflonyddu, Cam-drin a Brawychu.

b) Bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cefnogi'r rhaglen waith y bydd y swyddogion yn dechrau arni'n fewnol a gyda rhanddeiliaid i ddatblygu protocol ar gyfer aelodau mewn perthynas ag aflonyddu, cam-drin a brawychu.

c) Bydd Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifennu at CLlLC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) yn ceisio barn ychwanegol ynghylch pa fesurau y mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru'n eu hystyried i gefnogi aelodau etholedig sy'n dioddef aflonyddu, cam-drin a brawychu.

## 4. <u>BLAENRAGLEN WAITH 2018-19</u>

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

**CADEIRYDD**